AMGUEDDFA CYMRU

# Môr-ladron Cymreig





Mae'r adnodd hwn yn gyflwyniad i fôr-ladron Cymreig a'u hanes.

Mae gan Amgueddfa Genedlaethol y Glannau nifer o sesiynau corfforol a rhithwir ar thema môr-ladron ar gyfer grwpiau ysgol. Gellir defnyddio'r adnodd hwn i ategu'r sesiynau hynny. Am fwy o wybodaeth am y sesiynau hyn, cliciwch ar y ddolen isod.

*Taith ysgol i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau*

**Cynnwys |**


| | |
|---|---|
| Glannau Cymru | **4-5** |
| Cymru: magwrfa môr ladron | **6-7** |
| Ffeil Ffeithiau Môr-ladron 'Barti Ddu' | **8** |
| Ffeil Ffeithiau Môr-ladron 'Hywl Davies' | **10** |
| Preifatiriaid | **11-12** |
| Ffeil Ffeithiau Môr-ladron 'Capten Morgan' | **13** |
| Môr ladron y Caribî | **14** |
| Ffeil Ffeithiau Môr-ladron 'Artist y môr' | **15** |
| Cnafon, nid gelynion: trosedd a chosb | **16** |
| Ffeil Ffeithiau Môr-ladron 'John Callis' | **17** |
| Gweithgareddau | **18-20** |




Cyn gynted ag y dechreuodd pobl deithio ar longau, dechreuodd môr-ladron ymosod ac ysbeilio. Roedd rhai'n targedu llongau, eraill yn codi arswyd ar drigolion yr arfordir.

O'r cychwyn cyntaf, roedd ffortiwn fawr yn cael ei hennill a'i cholli ledled y byd i'r môr-ladron. Roedd môr-ladron yn ymosod ar longau a gludai lwythi gwerthfawr, fel metelau drudfawr, defnyddiau, perlysiau neu hyd yn oed bobl a gipiwyd fel caethweision – gyda chefnogaeth llywodraethau neu dirfeddianwyr weithiau.

# Glannau Cymru

Cafodd arfordir Cymru ei blagio gan fôr-ladron o gyfnod yr hen fyd tan y 18fed ganrif. Yn ystod Oes y Rhufeiniaid, roedd môr-ladron o Iwerddon yn fygythiad i Gymru, a chafodd Ynys Môn ei ysbeilio gan y Llychlynwyr yn y nawfed a'r ddegfed ganrif.

Yn ystod yr 17eg ganrif, roedd tyrau gwylio ar hyd glannau'r Gogledd yn rhybuddio eraill rhag y môr-ladron. Yn y 18fed ganrif, cafodd canonau eu gosod yn erbyn ymosodiadau o'r môr.




***Tenby Watchtower, 1678***

# Glannau Cymru

Roedd ogofâu a childraethau Cymru yn llefydd delfrydol i lanio gyda nwyddau wedi'u dwyn. Roedd môr-ladron yn aml yn cael cefnogaeth tirfeddianwyr ac ynadon lleol a oedd yn fwy na hapus i rannu eu helw. Er y gallai pobl leol ennill cyfran o'r cargo trwy ddal môr-ladron a'u dwyn i gyfraith, roedden nhw'n ochri gyda'r môr-ladron yn aml iawn.



# Cymru: magwrfa môr ladron

Yn ystod Oes Aur Môr-ladrata, roedd sawl môr-leidr yn hanu o Gymru. Mae sawl dogfen yn cyfeirio at fôr-ladron gydag enwau Cymreig, ac mae cofnodion yn dangos bod y Gymraeg a sawl iaith arall yn cael eu siarad ar fwrdd llongau môr-ladron.



# Cymru: magwrfa môr ladron

Cymry oedd dau o’r môr-ladron enwocaf erioed. Morwr cyffredin a drodd at fôr-ladrata oedd Barti Ddu, ond fe gadwodd at ei arferion crefyddol a dirwestol. Roedd Harri Morgan yn breifatîr yn y Caribî ac mae sôn iddo ddwyn miliynau o ddarnau arian gwerthfawr o Sbaen yn ystod ei oes, gan roi ei enw i rỳm ‘Captain Morgan’.




***Sketch of 'Barti Ddu' (Black Bart)***

# Ffeil Ffeithiau Môr-ladron

## John (Bartholomew)Roberts

## (1682-1722)

Enw môr-leidr:

**Barti Ddu**

Dod o:

**Castell-newydd-bach, Sir Benfro**

Sut y bu farw:

**Saethwyd yn ei wddw mewn brwydr gyda'r awdu r do d au.**

Pam mae'n enwog:

**Un o'r môr-ladron enwocaf oll, mae'n debyg iddo gipio dros 400 o longau mewn dwy flynedd a bachu gwerth miliynau o bunnoedd o drysorau.**





# Cymru: magwrfa môr ladron

Roedd Barti Ddu yn enwog am wisgo dillad sidan coch, a sashis neu wregysau dros ei ysgwyddau gyda dau bistol ym mhob un.

Fe welodd Barti Ddu fenyw'n cael ei llofruddio'n giaidd ar fwrdd llong môr-ladron Howell Davies. Fel capten, fe sicrhaodd ei bod hi'n drosedd i unrhyw un ddod â menyw wedi'i gwisgo fel dyn ar fwrdd y llong – a'r gosb oedd marwolaeth. Mynnodd fod gwarchodwr yno i ddiogelu unrhyw fenyw a gafodd ei darganfod ar long. Byddai môr-ladron yn cam-fanteisio ar y system, ac yn camddefnyddio safle'r gwarchodwr yn aml.



# Ffeil Ffeithiau Môr-ladron
## Howell Davis (Hywl Davies) (?-1719)

Enw môr-leidr:

Tywysog y môr-ladron

Dod o:

Aberdaugleddau, Sir Benfro.

Sut y bu farw:

Cafodd Davis a'i gyd fôr-ladron eu dal ar ynysoedd Cape Verde gan ddynion Llywodraethwr yr ynys. Fe gymerodd bum bwled a llafn yn ei wddf i ladd Davis yn y pen draw.


Pam mae'n enwog:

Yn giamstar ar guddwisgo, byddai Davis yn dynwared bonheddwr er mwyn mynd i mewn i gartrefi pobl gyfoethog cyn dwyn oddi arnyn nhw neu eu dal yn wystlon am arian.



# Preifatiriaid

Doedd pob môr-leidr ddim yn ddrwg i gyd chwaith – yn llygad y gyfraith o leiaf. Preifatiriaid oedd y rhain, ac roedden nhw'n gweithio i lywodraethau Prydain, Ffrainc a Sbaen yn aml. Roedd 'llythyrau atrais' yn caniatáu iddyn nhw ymosod ar longau'r gelyn a dwyn eu cargo, a chadw rhywfaint ohono iddyn nhw eu hunain.



# Preifatiriaid

Roedd preifatiriaid ar waith o'r canol oesoedd tan y 19eg ganrif, ac yn derbyn cymorth teuluoedd brenhinol neu lywodraethau. Roedd Cyfansoddiad 1788 yr Unol Daleithiau hyd yn oed yn rhoi'r grym i'r Gyngres gyflwyno Llythyrau Atrais.

Daeth llawer o'r preifatiriaid hyn yn hynod gyfoethog, gan ddefnyddio eu harian i brynu tir neu adeiladu tai mawr. Roedd llawer, fel y Cymro Harri Morgan, yn hanu o deulu cefnog, ac wedi mynd ymlaen i ddal swyddi uchel.




*Ho! Henry Morgan sails today*
*To harry the Spanish Main,*
*With a pretty bill for the Dons to pay*
*Ere he comes back again.*

*Him cheat him friend of his last guinea,*
*Him kill both friar and priest - Oh Dear!*
*Him cut de t'roat of piccaninny,*
*Bloody, bloody buccaneer.*

***Baled Gorllewin Indiaidd***

# Ffeil Ffeithiau Môr-ladron

## Henry Morgan (1635-1688)

Enw môr-leidr:

Capten Morgan

Dod o:

Llanrhymni, Caerdydd.

Sut y bu farw:

Bu farw yn ei gartref yn 53 oed, o salwch yn gysylltiedig â goryfed mwy na thebyg.

Pam mae'n enwog:

Preifatîr enwog o'r 17eg ganrif. Ymosododd Morgan ar sawl llong o Sbaen a dinistriodd ddinas Panama yn America Ganol. Daeth yn Llywodraethwr Jamaica maes o law.






# Môr ladron y Caribî

Roedd agosrwydd Môr y Caribî at yr Americas, oedd newydd eu concro, yn golygu ei fod yn fwrlwm o fôr-ladron o'r 1500au tan y 1700au. Roedd môr-ladron a phreifatiriaid yn defnyddio'r cyfyngleoedd a oedd yn sianelu llongau drwy'r Caribî. Diolch i ynysoedd a chilfachau niferus y Caribî, roedd hi'n hawdd i fôr-ladron guddio ac felly'n anoddach i'r awdurdodau eu dal nhw.

Roedd caethwasiaeth yn rhan fawr o fasnach y Caribî, ac mae sawl stori am gaethweision yn ffoi ac yn ymuno â'r môr-ladron. Roedd hyd at wyth deg o griw Barti Ddu yn Affricaniaid, rhai'n hanu o longau a gipiwyd ganddo. Byddai'n caniatáu i ddynion abl ymuno â'r môr-ladron, ond yn gwerthu'r lleill i'r awdurdodau.



# Ffeil Ffeithiau Môr-ladron

## John Phillips (?-1724)

Enw môr-leidr:

**Artist y môr**

Dod o:

**Gwynedd, Cymru**

Sut y bu farw:

**Lladdwyd â bwyell ar ôl iddo gipio llong ger arfordir Nova Scotia, Canada. Cafodd ei ben ei biclo a'i hongian o hwylbren y llong.**

Pam mae'n enwog:

**Saer llong oedd Phillips. Cafodd ei ddal gan fôr-ladron, a dod yn gapten llong yn y man. Bu'n brawychu ar y moroedd yn ardal Newfoundland, Canada, gan ymosod ar gychod pysgota.**



# Cnafon, nid gelynion: trosedd a chosb

Marwolaeth oedd y gosb am fôr-ladrata yn aml. Yn aml, roedd diwedd digon erchyll yn wynebu môr-ladron a gâi eu herlyn. Byddent yn aml yn cael eu crogi ar ddarn byr o raff, a oedd yn eu tagu nhw yn hytrach na thorri eu gwddw. Bydden nhw’n gadael y corff i hongian weithiau nes bod o leiaf dri llanw wedi golchi drosto. Yn achos y môr-ladron gwaethaf, byddai’r corff yn cael ei orchuddio wedyn â thar a’i adael mewn cawell metel neu grocbren am hyd at ddwy flynedd, hyd nes ei fod wedi pydru i ddim.



# Ffeil Ffeithiau Môr-ladron

## John Callis (Callys or Callice)

## (?-?)

Enw môr-leidr:

Cafodd ei ddisgrifio fel 'The Most Dangerous pyrate in the Realm' gan Gyfrin Gyngor y Frenhines.

Dod o:

Tyndyrn, Sir Fynwy.

Sut y bu farw:

Efallai iddo gael ei grogi oddi ar arfordir Cymru, neu ei ladd mewn brwydr ym Môr y Canoldir ar ôl ymuno â môr-ladron y Barbari.

Pam mae'n enwog:

Roedd Callis yn enwog am ymosod ar longau ar Fôr Hafren a ledled arfordir Cymru.




Gweithgareddau



# Enw'r Môr-ladron

Ahoi gyfaill, beth yw dy enw môr-leidr di?

I wybod dy enw môr-leidr, dewisa air o bob colofn, eu cyfuno ac ychwanegu dy enw cyntaf neu lysenw atyn nhw. Er enghraifft: Tomos Tywysog y Tonnau.

| | |
|---|---|
| *Capten* | *Barfog* |
| *Penglog* | *y Nos* |
| *Bachyn* | *Hir* |
| *Rhyfelgi* | *Du* |
| *Arwr* | *Hallt* |
| *Y Fonesig* | *Creulon* |
| *Tywysog* | *Peryglus* |
| *Calon* | *y Môr* |
| *Drewgi* | *Dwblwn* |
| *Brenin* | *y Trysor* |
| *Brenhines* | *Sgyrfi* |
| *Lleidr* | *y Tonnau* |
| *Barti* | *Coes glec* |
| *Torrwr gyddfau* | *Mileinig* |



# Bisgedi Llong



**Cynhwysion**

- 1lb Blawd gwenith cyfan ond fe wnaeth unrhyw flawd plaen weithio i chi.
- 1/4 Oz o halen
- Dŵr

**Cyfarwyddyd**

- Cynheswch y ffwrn o flaen llaw I 215°C (190°C ffwrn ffan). Cymysgwch yr halen ar flawd gyda'i gilydd ag ychwanegwch y dŵr yn araf, cymysgwch nes eich bod wedi creu toes anystwyth (stiff).
- Gadewch y toes am hanner.
- Rowliwch y toes allan yn weddol dew (tua hanner modfedd neu jyst dros gentimetr o ddyfnder).
- Defnyddiwch fforch i dorri tyllau bach dros wyneb y toes.
- Rhowch ar hambwrdd pobi a'i roi yn y ffwrn am tua 30 munud, nes bod wedi pobi yn galed.


AMGUEDDFA
CYMRU
Gellir dod o hyd i fwy
o adnoddau yn...
amgueddfa.cymru
/dysgu/